

## Crynodeb o gwestiynau'r weminar 30 Mehefin

<b>Cwestiwn</b>	<b>Ymateb</b>
<p>Sut y bydd y model safoni yn ystyried cyfanswm maint y garfan wrth ystyried pynciau craidd os oes newidiadau wedi'u gwneud i batrymau cofrestru sy'n golygu nad yw nifer cynyddol o ddisgyblion yn cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster?</p>	<p>Nid yw manylion y model safoni wedi'u cwblhau'n derfynol. Fodd bynnag, cynigir y bydd y modelau'n defnyddio cyfuniad o dystiolaeth gan gynnwys cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr sy'n sefyll y cymhwyster eleni. Dylai'r dystiolaeth honno ddarparu ffordd i ystyried newid patrymau cofrestru a chryfderau carfanau mewn canolfannau.</p>
<p>Rydych wedi sôn am yr angen i sicrhau bod canlyniadau cenedlaethol yn cyd-fynd â chanlyniadau hanesyddol. Rydym yn croesawu hyn. Fodd bynnag, sut y bydd hyn yn cael ei wneud yn deg? Er enghraifft, efallai bod Ysgol A wedi gwneud rhagfynegiadau cywir yn seiliedig ar ddata disgyblion, tra gallai Ysgol B fod wedi bod ychydig yn optimistaidd yn ôl data disgyblion. Pan edrychwch ar y graddau cenedlaethol, rydych yn gweld eich bod 5% yn uwch na lle y mae angen i chi fod. Ni fyddai'n deg cael gostyngiad cyfannol gan na fyddai hyn yn deg ar ysgol A.</p>	<p>Nid yw manylion y model safoni wedi'u cwblhau'n derfynol. Rydym yn disgwyl cyhoeddi crynodeb lefel uchel o'r hyn y mae'n ei wneud a sut y bydd yn gweithio ym mis Gorffennaf gyda mwy o fanylion ychydig ar ôl diwrnod y canlyniadau. Rydym yn ymwybodol o'r annhegwch posibl wrth addasu graddau a asesir gan ganolfannau ar i lawr mewn ffordd amrwd. Dyna pam y bydd safoni yn seiliedig ar gyfuniad o dystiolaeth gan gynnwys cyrhaeddiad blaenorol dysgwr a'r drefn restrol a ddarperir gan ganolfannau.</p>
<p>Mae Nod 4 yn nodi na ddylai'r broses o ddyrannu graddau roi anfantais annheg i unrhyw grwpiau o fyfyrwyr (gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig). Mae dysgwyr EMAT, er nad yn nodwedd warchoddedig, yn cael eu cydnabod gan Gynulliad Cymru fel grŵp ar wahân a rhoddir llawer o bwyslais ar ddarpariaeth addysgol, gan wthio am ganlyniadau gwell ar y lefel hon ledled Cymru. Sut NA fydd y model safoni cyfredol yn rhoi dysgwyr EMAT dan anfantais?</p>	<p>Roedd cytundeb eang gyda Nod 4 gyda'r ymatebwyr yn falch bod anfantais bosibl wedi'i chydabod ac yn obeithiol bod y nod yn gyraeddadwy.</p> <p>Ni fwriadwyd i'n cynnig fod yn unigryw i'r dysgwyr hynny â nodweddion gwarchoddedig, ond yn hytrach yn nod y dylai'r dull o ddyfarnu graddau'r haf hwn fod mor deg â phosibl o ystyried yr amgylchiadau, ac na ddylai unrhyw ddysgwyr (gan gynnwys dysgwyr uchel eu cyrhaeddiad, Seren, EMAT a MAT Cymru) gael mantais neu fod o dan anfantais systematig gan y broses.</p>

	<p>Rydym wedi penderfynu diwygio geiriad y Nod hwn, mae'r geiriad bellach fel a ganlyn:  Cyn belled ag y bo modd, ni fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn rhoi mantais neu anfantais systematig i ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion a ddiogelir gan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb.</p>
<p>Mewn perthynas â nod 4, os na roddir ystyriaeth i ysgolion sy'n gwella'n gyflym (ac sydd wedi 'cyfnewid' perfformiad yn barod i ddangos gwelliannau ar y ddwy flynedd flaenorol) sut y bydd y model safoni yn gweithio lle mae'n bosibl y bydd canlyniadau fel lefel canolfan wedyn yn cael eu gostwng? Siawns nad yw hyn yn gwrth-ddweud nodau cynharach o ran tegwch i bob dysgwr?</p>	<p>Mae'r modelau sy'n cael eu hystyried ar gyfer safoni TGAU yn defnyddio ystod o dystiolaeth gan gynnwys graddau asesu canolfannau, trefn restrol, perfformiad hanesyddol canolfan a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr. Mae'r union ffordd y mae canlyniadau cofrestradau cynnar yn cael eu defnyddio yn y model ar gyfer TGAU yn dal i gael ei ystyried a'r nod yw eu hymgorffori mewn rhyw ffordd.</p>
<p>Rwyf wedi dechrau gweithio mewn ysgol newydd eleni lle'r oedd canlyniadau TGAU Ffrangeg yn isel o'r blaen. Fodd bynnag, roedd fy ngrŵp eleni yn alluog iawn, ac rwy'n pryderu y bydd perfformiadau blynyddoedd blaenorol yn effeithio'n andwyol arnynt. Pa fath o dystiolaeth y byddwch chi'n edrych arni? A fyddwch chi'n defnyddio data ysgol yn unig, neu a fydd angen i chi weld gwaith rhai myfyrwyr?</p>	<p>Mae'r modelau safoni arfaethedig yn defnyddio ystod o dystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth o gyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr a gofrestrwyd eleni o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Dylai hyn helpu i gyfrif am newidiadau yng ngallu'r garfan mewn canolfannau eleni. Nid yw hyn wedi'i gwblhau eto. Ond ar gyfer cymwysterau TGAU lle mae unedau wedi'u dyfarnu mewn cyfresi blaenorol, mae'n debygol y bydd tystiolaeth yn cael ei hystyried. Ar gyfer cymwysterau TGAU lle nad oes tystiolaeth unedau ar gael, mae ymchwil yn cael ei gynnal i sut y gellid defnyddio asesiadau athrawon cyfnod allweddol 3 a data profion cenedlaethol i gynhyrchu tystiolaeth o alluoedd newidiol carfannau mewn canolfannau. Dim ond os oes tystiolaeth gref ei bod yn debygol o wella cywirdeb cyffredinol graddau y byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon.</p>
<p>A fydd graddau darogan o UG yn cael eu defnyddio tuag at Safon Uwch yn 2021?</p>	<p>Ni fydd y graddau a gyfrifir ar gyfer UG yr haf hwn yn cael eu defnyddio fel rhan o'r graddau Safon Uwch yn 2021. Esbonnir hyn yn adran</p>

	<a href="#">Cwestiynau Cyffredin</a> yn adran Covid-19 ein gwefan.
Sut fydd blwyddyn 12 yn cwblhau'r holl lwyth gwaith ar gyfer Safon Uwch y flwyddyn nesaf heb ystyried unrhyw UG?	Mae 2 lwybr y gall dysgwyr eu dewis wrth gwblhau Safon Uwch haf 2021 ac ni fydd y llwybr yr ydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf ei gymryd (sefyll unedau A2 yn unig) yn golygu unrhyw lwyth gwaith ychwanegol. Rydym hefyd yn ystyried y sefyllfa o ran yr aflonyddwch i addysgu a dysgu sydd wedi digwydd, a'r risg o darfu pellach yn 2020/21.
Pryd fydd CBAC yn darparu manylion y broses Apelio ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 a ganslwyd?	Fel y rheolydd, ni sy'n gosod y rheolau y mae CBAC yn gweithredu oddi tanynt. Bydd CBAC yn cyhoeddi manylion ynghylch sut y bydd eu proses apelio yn gweithredu cyn bo hir. Yna bydd CBAC yn cyhoeddi'r trefniadau a'u rhoi i ysgolion. Rydym wedi cyhoeddi ffeithlun <a href="https://qualificationswales.org/media/6214/process-apelio-haf-2020.pdf">https://qualificationswales.org/media/6214/process-apelio-haf-2020.pdf</a> sy'n amlinellu'r gofynion ar gyfer apelio ar lefel uchel ac mae'r adroddiad penderfyniadau ymgynghori yn amlinellu mwy o fanylion am y gofynion hynny.
Beth yw'r trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau hydref 2020? Dim ond ychydig dros fis fydd gan ysgolion ar ôl cyhoeddi canlyniadau arholiadau cyfres arholiadau haf 2020 a ganslwyd i baratoi ar gyfer, a sefydlu set o arholiadau ar gyfer nifer amhenodol o ymgeiswyr er mwyn iddynt allu sefyll arholiadau ym mis Hydref a mis Tachwedd, felly'r cynharaf y cyhoeddir hyn, gorau oll.	Mae'r trefniadau y buom yn ymgynghori arnynt yn ymwneud yn unig â chymwysterau cyffredinol CBAC a gymeradwywyd i Gymru yn unig. Nid ydym yn gofyn am gyfres hydref 2020 ychwanegol ar gyfer y cymwysterau hyn yng Nghymru. Bydd cyfres mis Tachwedd yng Nghymru, fel mewn blynyddoedd blaenorol, ar gyfer TGAU Saesneg, Iaith, Cymraeg Iaith a'r ddau gymhwyster TGAU Mathemateg. Mae Ofqual wedi ymgynghori'n ddiweddar ar yr ymagwedd at gyfres yr Hydref ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch y maent yn eu rheoleiddio a allai fod ar gael mewn rhai canolfannau yng Nghymru.
Sut allwch chi sicrhau bod ymgeiswyr mewn Chweched Dosbarth ysgolion bach yn cael y graddau cywir yn eu cymwysterau UG a Safon Uwch? Gall fod amrywioldeb	Nid yw'r model safoni yn dibynnu'n unig ar dystiolaeth o berfformiad blaenorol yn y ganolfan, sydd, fel y dywedwch yn gywir, yn amrywio. Bydd hefyd yn defnyddio tystiolaeth o

<p>mawr o flwyddyn i flwyddyn. A fydd cyrhaeddiad blaenorol y *dysgwyr penodol yng ngharfan y pwnc hwnnw* yn cael ei ddefnyddio i safoni'r graddau asesu canolfannau ar gyfer y pwnc hwnnw?</p>	<p>gyrhaeddiad blaenorol dysgwr i gyfrif am gryfder y garfan mewn canolfan eleni er mwyn cynhyrchu graddau mwy cywir. Bydd safoni yn digwydd ar lefel y pwnc.</p>
<p>A fydd canlyniadau Saesneg Iaith Blwyddyn 11 yn defnyddio canlyniadau cofrestriad cynnar Llenyddiaeth Saesneg fel rhan o'r model ystadegol mewn canolfan?</p>	<p>Mae'r modelau sy'n cael eu hystyried yn defnyddio ystod o dystiolaeth, ond gwneir hyn ar lefel cymhwyster. Ni fyddai canlyniadau Llenyddiaeth Saesneg yn cael eu defnyddio ar gyfer cyrhaeddiad blaenorol Saesneg Iaith.</p>
<p>Pryd fydd canolfannau'n derbyn canlyniadau? Pryd fydd canolfannau'n gallu gofyn am adborth?</p>	<p>Y diwrnodau canlyniadau fydd 13 Awst i Safon Uwch ac 20 Awst i TGAU. Bydd canolfannau'n derbyn canlyniadau yn yr un ffordd cyn diwrnodau canlyniadau ag mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd CBAC yn darparu rhagor o wybodaeth am ba wybodaeth a ddarperir a'r mecanweithiau ar gyfer gwirio canlyniadau.</p>
<p>Rwy'n deall yr esboniad a roddwyd ynghylch y model safoni yn cael effaith negyddol ar ysgolion sy'n gwella'n gyflym. Fodd bynnag, a fu ystyriaeth i ysgolion sydd eisoes wedi dangos cynnydd cyflym, gyda chanlyniadau amrywiol mewn deilliannau o gofrestrriad cynnar (Gorffennaf 19, Tachwedd 19, Ionawr 20), yn enwedig os yw'r canlyniadau hynny eisoes wedi rhagori ar duedd tair blynedd ddiweddar y ganolfan? Ymhellach, yn hyn o beth, gellid ystyried, yn yr achos hwn, y byddai unigolion a grwpiau o ddysgwyr dan anfantais oherwydd y model safoni pe na bai'r senario benodol hon yn cael ei hystyried?</p>	<p>Mae'r modelau sy'n cael eu hystyried ar gyfer safoni TGAU yn defnyddio ystod o dystiolaeth gan gynnwys graddau asesu canolfannau, trefn restrol, perfformiad hanesyddol canolfan a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr. Mae'r union ffordd y mae canlyniadau cofrestriadau cynnar yn cael eu defnyddio yn y model ar gyfer TGAU yn dal i gael ei ystyried a'r nod yw eu hymgorffori mewn rhyw ffordd.</p>
<p>A all rhieni ofyn am ddata ychwanegol fel trefn restrol?</p>	<p>Rhaid i ysgolion gadw'r wybodaeth a ddefnyddir i gynhyrchu canlyniadau, gan gynnwys graddau asesu canolfannau a threfn restrol, yn gyfrinachol cyn i'r canlyniadau gael eu rhyddhau. Ar ôl y pwynt hwnnw bydd rhieni'n gallu gofyn am wybodaeth gan ganolfannau. Bydd yn</p>

	<p>ofynnol i ganolfannau fod â threfniadau ar waith i ddysgwyr ofyn am wybodaeth i benderfynu a ddylid gofyn am apêl ai peidio.</p>
<p>Sut y byddwch chi'n cyfrif am ysgol sydd wedi dangos gwelliant sylweddol eisoes eleni? Mae ein perfformiad a 'gyfnewidiwyd' sy'n seiliedig ar gofrestrriad cynnar eisoes yn uwch na chanlyniadau terfynol ein dwy flynedd flaenorol, felly sut fydd y model safoni yn gweithio i ni?</p>	<p>Mae'r modelau sy'n cael eu hystyried ar gyfer safoni TGAU yn defnyddio ystod o dystiolaeth gan gynnwys graddau asesu canolfannau, trefn restrol, perfformiad hanesyddol canolfan a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr. Mae'r union ffordd y mae canlyniadau cofrestrriadau cynnar yn cael eu defnyddio yn y model ar gyfer TGAU yn dal i gael ei ystyried a'r nod yw eu hymgorffori mewn rhyw ffordd.</p>
<p>Pryd fydd canolfannau'n gallu gofyn am adborth gan CBAC ar y model ystadegol a ddefnyddir?</p>	<p>Bydd yn ofynnol i CBAC ddarparu digon o wybodaeth i ganolfannau a gwneud hynny o fewn amser rhesymol i ddysgwyr a chanolfannau ystyried gyda'i gilydd a ddylid gofyn am apêl. Darperir mwy o fanylion am hyn yn nhrefniadau apelio CBAC a gyhoeddir maes o law. Cyhoeddir manylion technegol y model o gwmpas diwrnodau canlyniadau.</p>
<p>A allwch egluro os gwelwch yn dda sut mae myfyrwyr sy'n anhapus â'u gradd yn ceisio cywiro hyn, ai'n uniongyrchol i'r bwrdd arholi neu drwy eu hysgol?</p>	<p>Rhaid i fyfyrwyr apelio trwy'r ysgol ar y sail a gyhoeddir yn yr adroddiad penderfyniadau. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn y ffeithlun <a href="https://www.qualificationswales.org/media/6214/proses-apelio-haf-2020.pdf">https://www.qualificationswales.org/media/6214/proses-apelio-haf-2020.pdf</a></p>
<p>Apeliadau byrddau arholi eraill - a fyddant yn debyg?</p>	<p>Mae ein hymgyngghoriad yn ymwneud â chymwysterau a ddarperir gan CBAC yn unig. Mae Ofqual (rheolydd cymwysterau yn Lloegr) wedi cyhoeddi eu gofynion ar gyfer y byrddau arholi eraill sydd i raddau helaeth yn debyg i'r rhai a roddwyd ar waith yng Nghymru. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y gofynion ar gyfer cymwysterau a reoleiddir gan Ofqual ar eu gwefan. <a href="https://www.gov.uk/government/news/exceptional-arrangements-for-awarding-qualifications-this-summer">https://www.gov.uk/government/news/exceptional-arrangements-for-awarding-qualifications-this-summer</a></p>